Llygaid i'r dall

Cryfder / dewrder

Louis Braille: 1809–1952

Beth am i chi gau eich llygaid am funud? Dechreuwch gerdded o gwmpas yr ystafell. Ydi, mae hi'n anodd iawn. Rwy'n siŵr eich bod yn mynd yn erbyn pob dim. Caewch eich llygaid unwaith eto. Meddyliwch am y pethau na fedrwch eu gwneud. Darllen, gwylio'r teledu, chwarae pêl, edrych ar y cyfrifiadur. Beth felly am bobl sy'n ddall? Beth sy'n digwydd iddyn nhw? Erbyn hyn mae yna nifer o bethau i'w helpu. Mae llyfrau arbennig iddyn nhw i'w darllen. Mae'r stori y tro hwn yn sôn am Louis Braille. Ef oedd y dyn wnaeth gymaint i helpu pobl ddall.

Pan oedd Louis yn dair blwydd oed fe gafodd ddamwain fawr. Byddai Louis wrth ei fodd efo'i dad yn y gweithdy. Trin lledr oedd gwaith ei dad. O fore gwyn tan nos byddai Louis yn dilyn ei dad, yn chwarae efo'r celfi ac yn arogli'r lledr.

"Tyrd i eistedd ar y gadair yma tra bydda i'n mynd i'r ystafell drws nesa," meddai'r tad wrth Louis, "a chofia di, paid â chyffwrdd mewn dim."

Ond wnaeth Louis ddim gwrando. Cododd un o'r celfi, sef y mynawyd a cheisio ei wthio trwy ddarn o ledr. Ond roedd y lledr yn galed. Yna wrth iddo wthio'n galetach a chaletach, llithrodd y mynawyd i lygad y plentyn.

Pan ddaeth ei dad yn ôl, roedd y bachgen bach wedi syrthio ar lawr ac yn beichio crio. Sylwodd ei dad ei fod wedi ei anafu'n ddrwg iawn. Bu mewn poen mawr am ddyddiau. Dechreuodd yr haint ledu i'r llygad arall. Am fisoedd bu'r meddygon yn gweithio'n galed i geisio gwella Louis. Ond doedd dim yn tycio. Roedd Louis yn ddall yn ei ddau lygad.

Ar ôl iddo dyfu i fyny, aeth i ysgol arbennig ar gyfer y deillion. Roedd â diddordeb mawr yn y ffordd roedd pobl yn dysgu darllen. Pan ddaeth yn athro yn y coleg fe weithiodd yn galed i gael gwyddor ar gyfer y deillion. Mae gwyddor Braille yn cynnwys nifer o ddotiau sy'n codi o'r dudalen. Pan fydd pobl ddall yn eu cyffwrdd, bydd y dotiau yn hawdd i'w hadnabod. Erbyn hyn, mae llyfrau Braille ar gyfer y deillion. Mae peiriant hefyd ar gael i helpu'r deillion i

ysgrifennu mewn braille. Mae tapiau ar gael i'r deillion wrando ar storïau yn cael eu darllen iddyn nhw.

Louis Braille oedd y dyn a roddodd lygaid i'r deillion, a'u galluogi i fyw bywyd normal.

"A daeth deillion a chloffion ato yn y deml, ac iachaodd hwy."

Mathew 21:14

O Dduw,
diolch i Ti am yr hyn yr ydw i'n medru ei wneud.
Helpa fi i wneud y pethau hyn er daioni,
i helpu eraill, fel y gwnaeth Louis Braille.
Amen.

Beth ydi'r pethau fedrwch chi eu gwneud orau? Rhestrwch nhw.
Beth am y pethau rydych chi'n cael anhawster efo nhw?
Tybed fuasech chi'n gallu gwneud y rhain yn well petaech chi'n gwneud mwy o ymdrech? Trafodwch.

Louis Braille: 1809–1952